

Cyngor Tref Caerfyrddin Carmarthen Town Council



CYNGOR TREF CAERFYRDDIN – DATGANIAD I'R WASG/EITEM NEWYDDION

Ailddatblygu Felodrom Caerfyrddin

Ar 24 Hydref 2017, cafwyd un o'r achlysuron lleol mwyaf hanesyddol ers sawl blynedd yng Nghaerfyrddin. Roedd ailagor Trac Seiclo Fictoraidd y dref yn benllanw blynyddoedd o gynllunio gan dîm prosiect o dan arweiniad Cyngor Tref Caerfyrddin.

Agorwyd y felodrom gwreiddiol ar Lun y Pasg 1900 a daeth yn ganolbwynt cystadlaethau seiclo yng Ngorllewin Cymru yn ystod rhan gyntaf yr ugeinfed ganrif, gyda rasys seiclo yn denu miloedd o wylwyr a chystadleuwyr proffesiynol o bob cwr o'r Deyrnas Unedig.



Dechrau'r ras/Start of race
tua/circa 1905



Yn fwy diweddar roedd y trac seiclo yn cael llai o ddefnydd oherwydd yr angen i'w adnewyddu, ac yn ystod haf 2017, symudodd contractwyr i mewn i gwblhau cyfnod adeiladu'r ailddatblygiad. Diolch i grantiau gan Gyngor Tref Caerfyrddin, Cyngor Sir Gâr a Chwaraeon Cymru, llwyddodd Cyngor Tref Caerfyrddin i fwrw ymlaen â'r prosiect gan wybod y byddai'r costau ailddatblygu tebygol o tua £600,000 yn cael eu cwrdd.

Dywedodd Clerc Cyngor Tref Caerfyrddin Alun Harries, sydd wedi gweithio ar nifer o wahanol brosiectau lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ystod ei yrfa: "Yn sicr dyma un o'r prosiectau mwyaf unigryw a heriol i mi gymryd rhan ynddo erioed. Mae'r Felodrom wedi'i leoli ym Mharc Caerfyrddin, un o'r prif atyniadau yng nghanol y dref, sy'n ardal gadwraeth ac mae hefyd yn adeilad rhestredig. Mae'r cae rygbi – sydd reit ynghanol y trac seiclo – yn gartref i Glwb Rygbi Quins Caerfyrddin sy'n chwarae yn Uwch-adran Undeb Rygbi Cymru – ac felly roedd yn rhaid i ni gynllunio i wneud gwaith adeiladu'r prosiect ar ddiwedd y tymor rygbi – sef yr haf wrth gwrs, a'r adeg pan mae'r rhan fwyaf o bobl yn dod i'r atyniadau a'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn ein Parc".

"Bu'n rhaid ystyried llawer o wahanol heriau a phroblemau. Er mwyn goresgyn y rhain yn llwyddiannus fe ffurfion ni dîm prosiect oedd yn cynnwys arbenigwyr o'r byd seiclo yn cynnwys Beicio Cymru, swyddogion oedd â phrofiad o brosiectau chwaraeon gyda mudiadau eraill fel Cyngor Sir Gâr ac un arbenigwr o fyd cadwraeth ac adeiladau rhestredig - Carl Morgan, syrfëwr cadwraeth arbenigol lleol, yr oedd ei broffesiynoldeb a'i wybodaeth yn hanfodol i lwyddiant y prosiect. Buom yn ffodus iawn i gael cynifer o bobl wybodus ar y tîm - gwnaeth yr her o dynnu'r prosiect at ei gilydd yn llai anodd nag y byddai wedi bod fel arall."

"Cafodd nifer o arwynebau gwahanol synthetig a choncrit eu treialu gan seiclwyr yn 2016 er mwyn sicrhau ein bod yn cael yr arwyneb seiclo gorau a mwyaf addas posibl. Buom yn

edrych ar opsiynau o bob rhan o'r bryd yn cynnwys Ffrainc, Yr Eidal a Tsieina. Wrth gwrs mae cryn dipyn o arwyddocâd hanesyddol i'r Felodrom ac roedd angen i ni gadw ei natur unigryw a'i bwrpas o fewn Parc Caerfyrddin tra ar yr un pryd darparu cyfleuster modern a fyddai'n gallu denu seiclwr ar y lefel uchaf yn genedlaethol a rhyngwladol i gystadlu yno.

Yn ogystal â'r heriau o ddarparu arwyneb addas i reidio arno, roedd y prosiect yn golygu creu ffens ddiogelwch o amgylch perimedr y trac a 'pharth glas' diogelwch o amgylch tu mewn y trac i gyd. Heb y ddwy nodwedd ddiogelwch ychwanegol yma ni fyddai wedi bod yn bosibl dod â'r Felodrom i fyny i'r safonau sy'n ofynnol gan Beicio Prydain.

Ychwanegodd y Cynghorydd Alun Lenny, oedd hefyd yn aelod o'r Tîm Prosiect: 'Roeddem i gyd eisiau i'r Felodrom gael ei adfer i'w hen ogoniant cyn gynted â phosibl ond roedd yn rhaid i ni sylweddoli hefyd fod llawer o arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi yn y prosiect hwn. Roedd yn rhaid i ni fod yn ofalus felly fod y gwaith oedd yn cael ei wneud i'r 232 o faeau concrit yn sicrhau fod oes y Felodrom newydd yn parhau i'r cenedlaethau sydd i ddod. Yn y tymor hirach bydd hyn yn golygu llai o gostau cynnal a chadw a rheoli a bydd y trac yn para'n hirach'.



Roedd y gwaith cychwynnol yn golygu cynnal arolygon laser o'r baeau concrit gwreiddiol i weld a oedd unrhyw symudiad ynddynt yn ystod amodau tywydd gwahanol ac eithafol dros gyfnod o 12 mis. Rhoddwyd y baeau gwreiddiol yn eu lle dros ganrif yn ôl a dros y 100 mlynedd diwethaf mae rhai o'r baeau hyn a'r gwaith brics o'u hamgylch wedi parhau i ddirywio oherwydd oed, y tywydd, a thraul cyffredinol ac wedi gorfod cael eu hatgyweirio neu rai newydd yn cael eu gosod yn eu lle. Roedd angen arolygu'r draeniau o dan y darn glaswelltog hefyd i weld a fyddent yn gallu parhau i ddraenio'r holl ddŵr wyneb i ffwrdd. Eto roedd y rhain wedi bod yn eu lle ers blynnyddoedd mawr ac roedd angen i'r peirianwyr fod yn sicr eu bod yn osgoi problemau yn y dyfodol gan y byddai hyn yn effeithio ar yr wyneb ac ar safon y reid i'r seiclwr. Roedd hi'n hanfodol felly fod pob elfen o waith adeiladu a dylunio'r

wyneb seiclo newydd yn ystyried y materion hyn - nid yn unig i sicrhau fod y Felodrom newydd o'r safon uchaf posibl i ganiatáu cynnal digwyddiadau cenedlaethol ac o bosibl rhyngwladol yno - ond hefyd i wneud yn siŵr fod y cyhoedd yn cael y gwerth gorau o'r arian oedd yn cael ei wario arno.

Dechreuodd y contractwyr – cwmni lleol GD Harries a'i Feibion Cyf – y gwaith adeiladu ar 15 Mai 2017 a dewiswyd yr opsiwn o roi concrit newydd sbon yn lle'r hen concrit a thrwy hynny ddarparu wyneb seiclo concrit ac arbenigol yn benodol ar gyfer y gamp.

Yna dechreuodd y tymor rygbi a gwnaed trefniadau arbennig i alluogi gemau cynghrair cartref Clwb Rygbi Quins Caerfyrddin i gael eu cynnal yn ôl y bwriad ym mis Medi tra bod Parc Caerfyrddin wedi aros ar agor i'r cyhoedd drwy gydol y cyfnod.

Roedd angen hefyd uwchraddio'r llifoleuadau, a gynlluniwyd ar gyfer gemau rygbi, er mwyn sicrhau diogelwch beicwyr fydd yn defnyddio'r trac yn ystod nosweithiau tywyll y gaeaf.




Ail-agorwyd y Felodrom ar ei newydd wedd mewn seremoni gyhoeddus nos Fawrth 24 Hydref a daeth cannoedd o bobl draw i'r agoriad.

Gyda chymorth y seiclwyr elit proffesiynol Scott Davies ac Amy Roberts, y ddau'n gyn-aelodau iau o "Towy Riders", clwb seiclo Caerfyrddin, agorodd Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Alun Lenny, y cyfleuster yn swyddogol. Roedd pobl leol amlwg eraill yno yn cynnwys y Cynghorydd Emlyn Dole, Arweinydd Cyngor Sir Gâr, y Cynghorydd Irfon Jones, Cadeirydd Cyngor Sir Gâr, Jonathan Roberts o Chwaraeon Cymru, ac Anne Adams-King, Prif Weithredwr Beicio Cymru. Er gwaetha'r tywydd gwlyb, gallodd y Towy Riders seiclo ar y trac am y tro cyntaf a chafwyd arddangosiad hefyd o nifer o feiciau hynafol, yn cynnwys un peni-ffarding 150 oed a adeiladwyd yng Nghaerfyrddin.



Dywedodd Maer Caerfyrddin, y Cynghorydd Alun Lenny “Mae’n bleser gen i’ch croesawu yma heno ar yr achlysur hanesyddol hwn. Mae ailddatblygu’r cyfleuster hwn, a gafodd ei ddefnyddio gyntaf dros gan mlynedd yn ôl, wedi bod yn heriol ond yn brosiect diddorol iawn ac mae fy niolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed i wneud i hyn ddigwydd. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb gefnogaeth ariannol Cyngor Tref Caerfyrddin, Cyngor Sir Gâr a Chwaraeon Cymru. Diolch i bawb a wnaeth hwn yn gymaint o lwyddiant. Rydym nawr yn edrych ymlaen at y bennod nesaf yn hanes felodrom Caerfyrddin a phob lwc i’r bobl a’r clybiau beicio a fydd yn defnyddio’r cyfleuster, gan gynnwys y bobl ifanc o Towy Riders sydd yn edrych ymlaen yn fawr at eu reid gyntaf ar yr arwyneb newydd heno”

Dywedodd Nick Smith, Cadeirydd Beicio Cymru: “Mae hon yn foment falch iawn i seiclo yng Nghymru ac rydym ni yn Beicio Cymru yn falch o fod wedi chwarae rhan yn sicrhau’r cyfleuster a hefyd o weithio’n agos iawn gyda’r holl bobl leol sydd wedi gwneud i hyn ddigwydd. Does ddim amheuaeth bod dyfodol disglair iawn i seiclo yng Nghymru ac mae hwn yn gyfleuster a fydd yn sicrhau bod seiclwyr o bob gallu yn parhau i ffynnu.



Meddai Brian Davies, Cyfarwyddwr Chwaraeon Elit yn Chwaraeon Cymru:

“Beicio yw un o’r chwaraeon mwyaf llwyddiannus yng Nghymru o ran cyfranogiad cymunedol a pherfformiad, a dyna pam roddem mor awyddus i fuddsoddi mewn cyfleuster mor allweddol. Mae’r gwaith sydd wedi ei wneud yma yn sicrhau cynladwyedd lleoliad a fydd yn rhoi canlyniadau positif yn rhanbarthol a chenedlaethol. Bu’r cydweithio a’r buddsoddiad gan wahanol bartneriaid yn ganolog i wneud i hyn i gyd ddigwydd. Rydym yn ddiolchgar i’r bobl leol a ddaeth â’u hawydd a’u hynni i wneud y prosiect yn realiti. Y seiclwyr cyntaf i fynd ar y trac fydd reidwyr ifanc o’r clwb lleol o dan lygaid gwylidwrs athletwyr elit lleol. Credaf fod hynna’n dweud y cyfan am yr hyn all gael ei gyflawni fan hyn.”

Alun J Harries – Clerc, Cyngor Tref Caerfyrddin
30 Hydref 2017